**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Mawrth, 16 Rhagfyr 2025**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 18 Rhagfyr 2025. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Llun, 29 Rhagfyr, 2025. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Mawrth, 30 Rhagfyr 2025.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd), (Cadeirydd) Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Ieuan Williams a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Dylan Rees

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Neville Evans

(10:00 y. b. tan 11:15 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2025, fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Ionawr i Awst** |

| | |
|---|---|
| | **2026 gyda'r newidiadau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Rheoli'r Trysorlys - Adolygiad Canol Blwyddyn 2025/26**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi cynnwys yr Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Derbyn diweddariad canol blwyddyn ar berfformiad rheoli'r trysorlys yn unol â gofynion Côd Ymarfer a Chôd Darbodus CIPFA** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amerthnasol. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2026** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Cynllun Strategol Digidol Addysg 2026-2031**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu'r Cynllun Strategol Digidol Addysg newydd (2025-2031).** |

| | |
|---|---|
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cyfrannu tuag at adeiladu system addysg fodern a datblygiad digidol tymor hir a thrwy hynny cefnogi amcanion addysg Cynllun y Cyngor** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Ymgynghoriad Casglu ac Ailgylchu Gwastraff**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Cymeradwyo cynnal proses ymgynghori ar sut y gall y gwasanaeth ailgylchu/casglu gwastraff newid yn y dyfodol i helpu gyrraedd targedau ailgylchu statudol o 70%.**<br>• **Cymeradwyo'r cwestiynau i'w gofyn fel rhan o'r broses ymgynghori fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.**<br>• **Cymeradwyo'r amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus i gychwyn ar 7 Ionawr 2026 a phara am chwe wythnos.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Ymgynghori ar newidiadau posibl i wasanaethau ail-gylchu a chasglu gwastraff fel rhan o'r strategaeth i gyrraedd targedau statudol.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Rhenti a Thaliadau Gwasanaethau Tai** |

| | |
|---|---|
| | **2026/27**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**<br><br>• **Cynnydd o 4.3% ar draws yr holl unedau rhent cyffredinol sy'n unol â pholisi rhent Llywodraeth Cymru wrth gasglu dros 51 wythnos.**<br>• **Cynnydd o £1.10 yr wythnos ar gyfer rhenti pob garej.**<br>• **Bod y taliadau gwasanaeth a nodir yn adran 6.3 yr adroddiad yn cael eu codi ar bob tenant sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.**<br>• **Gweinyddu'r Cynllun Cymorth Rhent sy'n gynllun lleol i gefnogi tenantiaid sy'n hunan dalu rhent ac mewn anhawster ariannol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cynyddu lefelau rhent yn unol â Pholisi Rhent Llywodraeth Cymru** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 i gau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y golygai ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12, 13 a 14 o Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion ariannol am gontract adeiladu tai posibl ac fe all datgelu ei werth ragfarnu gallu'r Cyngor i negydu contractau yn y dyfodol** |

| | |
|---|---|
| | **gydag adeiladwyr eraill.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Ymateb i'r Her Tai Lleol - Datblygiad tai dros 10 uned: Plas Penlan, Llangefni**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo symud ymlaen i ddatblygu cynllun o 12 tai newydd ym Mhlas Penlan, Llangefni* fydd ar gael i drigolion lleol fel cartrefi fforddiadwy i'w rhentu mewn ymateb i'r her tai lleol.**<br><br>***Mae gwireddu'r cynllun yn amodol ar dderbyn caniatâd cynllunio iddo.*** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Darparu tai fforddiadwy mewn ymateb i'r her tai lleol ar Ynys Môn** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Datganiad o ddiddordeb rhagfarnus gan y Cynghorwyr Dafydd Roberts and Robin Williams y bu iddynt adael y cyfarfod pan drafodwyd yr eitem** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |